

# Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru

Sylwebaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mai 2022



## Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

## Adroddiad cryno

Cyd-destun 4

Negeseuon allweddol 5

Ffeithiau allweddol 8

Argymhellion 9

## Beth yw maint yr her? 11

Mae niferoedd y bobl sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio, a faint o amser y maent yn aros, wedi cynyddu'n sylweddol 12

Mae ffactorau arwyddocaol yn cyfyngu ar weithgarwch gofal wedi'i gynllunio 15

Gallai gymryd blynyddoedd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaeth 19

## Beth y mae angen i GIG Cymru ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau mewn gofal wedi'i gynllunio? 23

## Atodiad

1 Ein dull 28



# Adroddiad cryno

---

## Cyd-destun

- 1 Mae'r ôl-groniad o ran rhestrau aros yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Mae amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio wedi bod yn broblem ers amser maith yng Nghymru. Mae pandemig COVID-19 a'r effaith y mae wedi'i chael ar gapasiti'r GIG wedi gwneud y sefyllfa'n llawer gwaeth. Mae nifer y cleifion sydd ar restr aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio wedi tyfu i faint nas gwelwyd erioed o'r blaen. Mae mynd i'r afael â'r ôl-groniad hwnnw'n orchwyl anferthol i'r GIG. Mae hefyd yn bryder go iawn o safbwynt cleifion, y mae rhai ohonynt yn aros mewn poen, y mae eu cyflwr yn gwaethygu ac y mae rhai ohonynt bellach wedi bod yn aros am ymhell dros flwyddyn dim ond i ganfod beth sy'n bod arnynt.
- 2 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif ganfyddiadau o adolygiad lefel-uchel yr Archwilydd Cyffredinol o'r modd y mae GIG Cymru'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n disgwyl am driniaeth a'r modd y mae'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu gofal wedi'i gynllunio. Mae'n disgrifio maint yr ôl-groniad o gleifion sy'n disgwyl am driniaeth a heriau ehangach darparu gofal wedi'i gynllunio. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi camau gweithredu allweddol y mae angen i GIG Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau ym maes gofal wedi'i gynllunio. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau y mae targed Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn berthnasol iddynt<sup>1</sup>.

---

1 Ceir targedau gwahanol ar gyfer gwasanaethau eraill, megis triniaeth ar gyfer canser, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.



# Negeseuon allweddol

## Nodyn ar gleifion a llwybrau

Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn sôn am gleifion sy'n aros am driniaeth. Mae ein ffigurau'n seiliedig ar fesur 'agored' GIG Cymru o ran atgyfeirio i driniaeth. Mae'r mesur yn cyfri'r nifer y llwybrau sydd wedi dechrau ond heb gwblhau triniaeth eto, yn hytrach na phobl. Mae pob llwybr yn cynrychioli claf sy'n aros ond gall fod gan gleifion fwy nag un cyflwr iechyd ac felly maent ar y rhestr aros fwy nag unwaith. O ganlyniad, bydd cyfanswm nifer y bobl sy'n aros am driniaeth yn is na chyfanswm nifer y llwybrau. Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, ni chyhoeddwyd ffigurau i ddangos faint o gleifion unigol sy'n aros am driniaeth gan GIG Cymru.

- 3 Fel mewn rhannau eraill o'r DU, mae rhestrau aros y GIG yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol ers dechrau'r pandemig. Yng Nghymru, tyfodd rhestrau aros 51% rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2022 pan oedd 691,885 o gleifion<sup>2</sup> ar restr aros gofal wedi'i gynllunio. Roedd 251,647 o'r cleifion hyn wedi bod yn aros am fwy na 36 wythnos ac roedd 406,743 yn dal i aros am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol i drafod eu cyflwr a chytuno ar ddull gweithredu.
- 4 Er bod cyfradd y twf yn y rhestr aros ar y cyfan wedi arafu dros y misoedd diwethaf, ceir risg o hyd bod y gostyngiad mewn atgyfeiriadau a welwyd yn ystod y pandemig wedi creu galw cudd neu nas bodlonwyd a fydd yn dod i'r amlwg ar ryw adeg. O'i gymharu â lefelau cyn y pandemig rydym yn amcangyfrif bod rhyw 550,000<sup>3</sup> o atgyfeiriadau 'a allai fod ar goll' a fydd o bosibl yn dod o hyd i'w ffordd yn ôl i mewn i'r system yn y pen draw.
- 5 Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod £200 miliwn ar gael yn ystod 2021-22 i helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Fodd bynnag, mae cyrff y GIG wedi ei chael yn anodd gwario'r arian. Roedd cyrff y GIG wedi nodi ffyrdd o wario £146 miliwn ond cafodd £12.77 miliwn o hwnnw ei ddychwelyd at Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2022.

2 Gan ddefnyddio'r mesur llwybr 'agored' o gleifion sy'n aros am driniaeth ar hyn o bryd. Mae pob llwybr yn cynrychioli claf sy'n aros ond efallai y bydd gan glaf fwy nag un cyflwr iechyd ac y bydd felly ar y rhestr aros fwy nag unwaith.

3 Mae ein ffigwr ychydig yn wahanol i'r 500,000 yng nghynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru i drawsnewid gofal wedi'i gynllunio a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022.

- 6 Er bod cyllid ychwanegol yn mynd i fod yn hanfodol, ohono'i hun, ni fydd yn datrys y broblem. Mae angen i'r GIG gynyddu ei weithgarwch os yw'n mynd i ennill tir wrth ymdrin â'r ôl-groniad o ran rhestrau aros ac mae rhai rhwystrau sylweddol y mae angen eu goresgyn er mwyn gwneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys effaith barhaus COVID ar wasanaethau a staff, gweithlu blinedig gyda phrinderau staff, heriau recriwtio a chadw, cyfyngiadau yn ystâd y GIG ar hyn o bryd a all fod yn rhwystr i'r gallu i ail-lunio gwasanaethau'n gyflym, a ffynonellau cyfyngedig ar gyfer capasiti ychwanegol megis y sector preifat.
- 7 Bydd y gallu i gynyddu gweithgarwch gofal wedi'i gynllunio'n dibynnu ar argaeledd gwelyau hefyd. Mae nifer gwelyau'r GIG yng Nghymru wedi gostwng yn gyson dros nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd mae'r system hefyd yn profi anawsterau go iawn o ran rhyddhau cleifion sy'n ffit yn feddygol, yn rhannol oherwydd prinderau staff a chapasiti yn y sector gofal cymdeithasol.
- 8 Mae ein gwaith modelu senarios achos rhesymol wedi dynodi y gallai gymryd cymaint â saith mlynedd cyn bod niferoedd ar restrau aros yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. O ran faint o amser yn union y bydd yn ei gymryd, bydd hynny'n dibynnu ar ystod o wahanol ffactorau nad ydynt yn hawdd i'w rhagfynegi, gan gynnwys i ba raddau y mae'r galw cudd neu nas bodlonwyd a achoswyd gan y pandemig yn ailymddangos. A bydd rhai arbenigeddau'n cymryd yn hwy nag eraill i ddychwelyd arosiadau i lefelau cyn y pandemig.
- 9 Yr hyn sy'n amlwg yw y bydd ar y GIG angen ffocws cryfach ar wneud pethau'n wahanol. Mae angen i gapasiti gofal wedi'i gynllunio gael ei ddiogelu'n well, a pheidio â chael ei ddefnyddio'n rheolaidd fel 'falf ddiogelwch' y system a naill ai cael ei atal neu ei leihau pan fo mwy o bwysau megis ym misoedd y gaeaf.
- 10 Mae angen i wylidwriaeth ar gleifion tra'u bod ar y rhestr aros gael ei rheoli'n ofalus hefyd i leihau i'r eithaf unrhyw niwed o ganlyniad i arosiadau hir am driniaeth ac, yn ddelfrydol, osgoi unrhyw niwed iddynt. I helpu i gyflawni hynny, mae angen i fesurau perfformiad fod â mwy o ffocws ar anghenion clinigol cleifion yn hytrach nag yn syml ar ba mor hir y maent wedi bod yn aros.
- 11 Mae ar her hirdymor fel yr ôl-groniad o ran rhestrau aros angen cynllun hirdymor a ategir gan fuddsoddiad. Mewn perthynas â'r ail o'r rhain, mae'r cyhoeddiad y bydd £185 miliwn o refeniw ychwanegol yn cael ei warantu bob blwyddyn dros y pedair blynedd nesaf i gefnogi adferiad rhestrau aros yn arwyddocaol. Mae'n hollbwysig bod y buddsoddiad hwn yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth a bod yr holl gyfleoedd i gynyddu effeithlonrwydd i'r eithaf a moderneiddio gwasanaethau'n cael eu cymryd.

- 12 Er mai'r her uniongyrchol yw mynd i'r afael â'r ôl-groniad enfawr sydd wedi pentyrru, rhaid mai'r nod yn y pen draw yw creu system gofal wedi'i gynllunio sy'n gallu taro cydbwysedd cynaliadwy rhwng y capasiti a'r galw, rhywbeth a fu'n her sylweddol i'r GIG yng Nghymru am nifer o flynyddoedd.



Bydd pandemig COVID-19 yn achosi i'r GIG fod â sawl gwaddol parhaus, yn anad dim yr effaith sylweddol y mae wedi'i chael ar amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Yn union fel yr ymatebodd y GIG i her y pandemig, bydd angen iddo ymateb i her mynd i'r afael â rhestr aros sydd wedi tyfu i faint anferth. Bydd angen gweithredu ar y cyd mewn sawl cyfeiriad gwahanol, a bydd angen goresgyn rhai heriau hirsefydlog. Trefnwyd fod arian ychwanegol ar gael a rhaid ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau bod dulliau teg ac wedi'u targedu sy'n diwallu anghenion gofal wedi'i gynllunio pobl Cymru.



---

**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Ffeithiau allweddol


## 691,885

Cyfanswm y bobl ar restr aros yng Nghymru



## 50%

cynnydd yng nghyfanswm y niferoedd sy'n aros o fis Chwefror 2020 i fis Chwefror 2022



## 406,743


Nifer y bobl sy'n aros am apwyntiad cyntaf fel claf allanol



Ar y cyd mae orthopaedeg, llawfeddygaeth gyffredinol ac offthalmoleg yn rhoi cyfrif am **39%** o gyfanswm y rhestr aros

## 53%

y bobl a fu'n aros am yn hwy na **26 wythnos** am driniaeth



## 56,516

Nifer y bobl a fu'n aros am yn hwy na 2 flynedd (105 wythnos neu fwy)

## £146.1m

Amcangyfrif o'r cyllid referniw ychwanegol a ddefnyddiwyd i gefnogi adferiad gofal wedi'i gynllunio yn ystod 2021/22<sup>1</sup>



## £185m

Cyllid referniw ychwanegol y trefnwyd ei fod ar gael bob blwyddyn<sup>2</sup>

### Nodiadau\*

Data ym mis Chwefror 2022 oni nodir yn wahanol

- 1 Sicrhodd Llywodraeth Cymru fod £200 miliwn ar gael i gefnogi adferiad yn 2021-22. O'r swm hwn, mae amcangyfrifon yn dangos mai dim ond £146.1 miliwn a ddefnyddir. O'r swm hwn, dim ond £146.1m a ddyrannwyd ac mae amcangyfrifon yn dangos y bydd y £12.77m hwn yn cael ei ddychwelyd.
- 2 £170 miliwn o gyllid cylchol ynghyd â £15 miliwn ychwanegol y flwyddyn am y 4 blynedd nesaf.



# Argymhellion

- 13 Yn **Arddangosyn 7** o'r adroddiad hwn, rydym yn amlygu nifer o gamau gweithredu allweddol yr ydym yn meddwl y bydd eu hangen fel rhan o'r dull i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran rhestrau aros. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun cenedlaethol i drawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau amseroedd aros ym mis Ebrill 2022<sup>4</sup>. Mae ein hargymhellion yn seiliedig ar y camau gweithredu allweddol y mae eu hangen i roi'r cynllun ar waith yn llwyddiannus. Er eu bod wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru o ran ei rôl arweinyddiaeth system i sefydlu fframwaith ar gyfer adfer gofal wedi'i gynllunio, cydnabyddir y bydd eu rhoi ar waith, i raddau helaeth, yn ddibynnol ar gynlluniau a gweithgareddau cyrff unigol y GIG.

## Argymhellion

- A1 Mae'r cynllun cenedlaethol yn nodi uchelgeisiau lefel-uchel i leihau amseroedd aros. Mae'n cynnwys cerrig milltir targed i ostwng nifer y bobl sy'n aros am driniaeth ond nid oes manylion ynddo i egluro sut y bydd yn trawsnewid gofal wedi'i gynllunio. I roi'r cynllun hwn ar waith, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff iechyd i bennu cerrig milltir ag uchelgeisiau priodol i fesur cynnydd o ran cyflawni'r ffyrdd newydd o weithio a nodir yn y cynllun.
- A2 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod strategaeth ariannu eglur i gyd-fynd â'i chynllun cenedlaethol. Dylai hon gynnwys adnabod y buddsoddiad cyfalaf tymor hwy y bydd ei angen a phrosesau i sicrhau y bydd cyllid referniw'n ategu trawsnewidiad cynaliadwy gwasanaethau.

4 Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros: Llywodraeth Cymru, Ebrill 2022.

## Argymhellion

---

- A3 Nid oes manylion yn y cynllun cenedlaethol i egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi byrddau iechyd i sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn y gweithlu i gyflawni ei uchelgeisiau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrrff perthnasol y GIG i ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu i feithrin a chynnal capasiti gofal wedi'i gynllunio i ategu adferiad a mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran rhestrau aros. Dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar asesiad cadarn o fylchau mewn capasiti ar hyn o bryd a chynlluniau realistig i'w llenwi.
- A4 Mae'r cynllun cenedlaethol yn cynnwys bwrdd diagnosteg newydd ond nid yw'n nodi'r trefniadau arweinyddiaeth system y mae eu hangen i gyflawni'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Dylai Llywodraeth Cymru nodi trefniadau arweinyddiaeth system o'r fath a'u rhoi ar waith yn seiliedig ar sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o wendidau yn nhrefniadau blaenorol bwrdd y rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio.
- A5 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi'r prosesau, y fframweithiau polisi a'r trefniadau rheoli rhaglen a rheoli perfformiad angenrheidiol i sicrhau bod cyrrff y GIG:
- Yn mynd ati'n effeithiol i reoli risgiau clinigol a niweidiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig ag arosiadau hir am ddiagnosis a thriniaeth
  - Cynnal ffocws ar gyflawni llwybrau gofal wedi'i gynllunio mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus ac mewn modd sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnolegau newydd
  - Gwella'r modd y cyfathrebir gyda chleifion i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu am ba mor hir y gallant ddisgwyl aros, sut i reoli eu cyflwr tra'u bod yn aros, a beth i'w wneud os yw eu cyflwr yn gwaethygu neu'n gwella.




**Beth yw maint yr her?**



## Mae niferoedd y bobl sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio, a faint o amser y maent yn aros, wedi cynyddu'n sylweddol

- 1.1 Mae effaith y pandemig ar amseroedd aros am ofal wedi'i gynllunio'n amlwg. Bu cynnydd ar unwaith yn niferoedd y bobl a oedd yn aros o fis Ebrill 2020, ac mae'r niferoedd wedi parhau i gynyddu.
- 1.2 Ym mis Chwefror 2022, roedd 691,885 o gleifion yn aros ar y rhestr atgyfeirio i gael triniaeth (**Arddangosyn 1**). O'r rhain roedd 251,647 (36%) wedi bod yn aros am yn hwy na 36 wythnos. Roedd 406,743 o gleifion (59% o'r holl gleifion oedd yn aros) yn aros am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol i drafod eu cyflwr a chytuno ar gwrs o driniaeth. O'r rhain, roedd 146,198 (36%) wedi bod yn aros am yn hwy na 36 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol.
- 1.3 Ers dechrau'r pandemig, fe gynyddodd cyfanswm y bobl sy'n aros am brawf diagnostig o oddeutu 110,000 i bron i 165,000 ym mis Chwefror 2022. Yn nodweddiadol, yn ystod 2018-19 a 2019-20 roedd oddeutu 15,000 o arosiadau diagnostig am yn hwy nag wyth wythnos, ond fe gododd hyn i fwy na 74,000 ym mis Ionawr 2022. Roedd ffigyrau mis Chwefror 2022 yn dangos peth gwelliant gydag ychydig dros 66,000 yn aros am dros wyth wythnos.

## Arddangosyn 1: nifer y bobl yn aros am ofal wedi'i gynllunio Ebrill 2015 – Chwefror 2022




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

- 1.4 Mae'r amser y mae cleifion yn aros am driniaeth yn amrywio gan ddibynnu ble y maent yn byw. Er enghraifft, mae ffigyrau mis Tachwedd 2021 yn dangos mai pobl a oedd yn byw yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys oedd leiaf tebygol o fod wedi disgwyl am dros 36 wythnos ac mai trigolion ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg oedd fwyaf tebygol o fod wedi aros am gymaint â hynny.
- 1.5 Cynhaliodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ymchwiliad i effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros. Mae ymatebion<sup>5</sup> i ymgynghoriad y Pwyllgor ar amseroedd aros yn dangos effaith ddifrifol arosiadau hir ar wahanol gleifion. Cododd cynrychiolwyr cleifion bryderon gyda ni hefyd ynghylch yr effaith ar gleifion. Ynghyd â rhai swyddogion byrddau iechyd, fe ddwedon nhw wrthym fod cyflyrau rhai cleifion wedi gwaethygu erbyn iddynt gael eu trin a bod y dirywiad yn achos rhai cleifion wedi bod yn ddigon sylweddol iddynt fynd i adrannau achosion brys.

5 Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Ymchwiliad i Effaith yr Ôl-groniad o ran Amseroedd Aros ar Bobl yng Nghymru sy'n Aros am Ddiagnosis neu Driniaeth**, Tachwedd 2021 – Mawrth 2022.

1.6 Gall effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19 gynyddu maint a chymhlethdod y galw am ofal wedi'i gynllunio. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos, er bod atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi bod yn cynyddu'n gyson am flynyddoedd, eu bod wedi gostwng yn ddramatig ar ddechrau'r pandemig ac nad ydynt wedi dychwelyd yn llawn at y lefelau cyn y pandemig. Mae ein dadansoddiad ni'n awgrymu bod cyfanswm y gostyngiad mewn atgyfeiriadau'n cyfateb i oddeutu 550,000 o gleifion 'allai fod ar goll' wrth gymharu atgyfeiriadau o ddata ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2022 â chyfartaleddau atgyfeirio 2019-20. Amcangyfrif ceidwadol yw ein cyfrifiad ni o gleifion 'coll'. Fe all fod galw newydd ychwanegol hefyd o effaith uniongyrchol COVID-19, ac effeithiau anuniongyrchol y pandemig ar iechyd a lles dinasyddion.

**Arddangosyn 2: atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol Ebrill 2012-Chwefror 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

## Mae ffactorau arwyddocaol yn cyfyngu ar weithgarwch gofal wedi'i gynllunio

### Mae cyrff y GIG yn ei chael yn anodd gwario'r holl gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal wedi'i gynllunio

1.7 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddau gyhoeddiad ynghylch cyllid ychwanegol i gefnogi adferiad, â gwerth cyfunol o £200 miliwn yn 2021-22<sup>6</sup>. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £146.1 miliwn o'r £200 miliwn gan ddynodi bod cyrff y GIG wedi ei chael yn anodd adnabod rhaglenni adfer wedi'u costio a gwario arnynt yn y tymor byr. Darparwyd y cyllid o £146.1 miliwn mewn dwy gyfran ac mae **Arddangosyn 3** yn dangos y dyraniadau unigol hyn. Mae'r dyraniadau wedi bod yn seiliedig ar gynigion a gyflwynwyd gan gyrrff y GIG i Lywodraeth Cymru. Mae'r gyfran gyntaf ar y cyfan yn dilyn dyraniad seiliedig ar y boblogaeth, ac mae'r ail yn seiliedig ar allu cyrff y GIG i ddefnyddio'r cyllid yn gynhyrchiol i gefnogi gwelliant.

#### Arddangosyn 3: 2021-22 dyraniadau ariannol i gefnogi adferiad iechyd a gofal



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

6 [Cyhoeddi dyraniad ychwanegol 20 Mai 2021](#) a [Chyhoeddi dyraniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, 19 Awst 2021](#)

- 1.8 Dywedodd byrddau iechyd wrthym hefyd bod gwario'r arian wedi bod yn anos na'r disgwyl ac mae rhai wedi methu â'i wario<sup>7</sup>. Mae byrddau iechyd wedi ceisio sicrhau capasiti ychwanegol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio trwy roi peth gweithgarwch ar contract allanol a defnyddio adnoddau staff mewnol lle y bo'n bosibl. Mae'r sector gofal iechyd preifat yng Nghymru'n fach ac yn dibynnu'n rhannol ar drefn lle mae meddygon ymgynghorol y GIG yn gweld cleifion preifat yn eu hamser eu hunain. Mae byrddau iechyd yng Nghymru'n cystadlu â'r GIG yn Lloegr i sicrhau capasiti preifat o'r ochr arall i'r ffin. O ganlyniad, dywedodd byrddau iechyd wrthym ei bod hi'n anodd dod o hyd i ddigon o gapasiti ychwanegol a lle'r oedd ganddynt contractau gyda darparwyr preifat, roedd y ddarpariaeth yn aml yn llai na nifer y cleifion y cytunwyd arno ar y dechrau.
- 1.9 Dywedodd rhai byrddau iechyd nad oedd ganddynt ddigon o le ffisegol i gyflawni gweithgarwch gofal wedi'i gynllunio ychwanegol yn unol â mesurau atal a rheoli heintiau. Mae'n debygol y bydd angen cyllid cyfalaf i wneud addasiadau i ystadau presennol ysbytai ond dywedodd rhai fod cyfyngiadau ar swm y cyllid cyfalaf sydd ar gael yn rhwystr pellach.
- 1.10 Gall dull tymor hwy lle mae cyllid yn y cwestiwn fod o gymorth gyda chynlluniau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu mwy o sicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol trwy warantu cyllid blynyddol cylchol ychwanegol o £170 miliwn ar gyfer gofal wedi'i gynllunio am y tair blynedd o 2022-23. Ar ben y cyllid cylchol, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid blynyddol ychwanegol o £15 miliwn hyd at 2025-26 i roi cymorth i gyflawni ei chynllun blynyddol.
- 1.11 Er nad arweiniodd y dyraniad ychwanegol o £146.1 miliwn yn 2021/22 at leihad mewn rhestrau aros ar y cyfan, ymddengys ei fod wedi helpu i leihau cyfradd twf rhestrau aros.

---

<sup>7</sup> O ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2022, roedd cyrff y GIG wedi dychwelyd ychydig dros £12.77 miliwn o'r cyllid adfer ar gyfer cyfrannau 1 a 2.



## Mae gweithlu GIG Cymru wedi blino, wedi'i wasgaru'n denau ac o dan bwysau

1.12 Dywedodd swyddogion byrddau iechyd wrthym mai capasiti staff oedd eu her fwyaf wrth ddarparu gofal wedi'i gynllunio. Mae ein hadroddiad Darlun o Ofal Iechyd yn egluro bod gweithlu GIG Cymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ond bod prinderau penodol a hirsefydlog mewn rhai meysydd, megis anesthetyddion, radiolegwyr a nyrsys. Mae'r pandemig wedi gadael gwaddol o ran gweithlu sydd wedi blino gyda chyfraddau uwch o absenoldeb oherwydd salwch. Ceir pryderon hefyd bod mwy o staff yn gadael neu'n ymddeol yn gynnar oherwydd y pandemig. Mae heriau recriwtio'n bodoli hefyd gyda chyrff y GIG yn cystadlu mewn cronfa fach am staff meddygol ac am y tro cyntaf, mae nifer yn nodi bod prinderau staff gweinyddol i archebu ac amserlennu amser mewn clinigau a theatrau.

## Cwtogi ar ofal wedi'i gynllunio yw'r sefyllfa ddiodyn o hyd pan fo mwy o alw yn y system am ofal brys

1.13 Roedd peidio â darparu gofal wedi'i gynllunio ar ddechrau'r pandemig yn angenrheidiol o ystyried yr amgylchiadau ond roedd hefyd yn adlewyrchu ymateb diodyn yn y GIG i bwysau ar y system. Mae canslo neu gwtogi ar ofal wedi'i gynllunio gan y GIG wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers amser maith fel 'falf ddiogelwch' y system pan fo'r galw am ofal brys yn uchel megis yn ystod misoedd y gaeaf. Yn y gorffennol, mae byrddau iechyd wedi cynllunio'u gweithgarwch dewisol o amgylch brigau tebygol mewn gofal brys, gan geisio dal i fyny yn ystod cyfnodau tawelach. Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn diweddarau ei fframwaith uwchgyfeirio sy'n nodi sut y dylai cyrff iechyd ymateb i wahanol lefelau o bwysau ar ofal brys. Mae'r sefyllfa ar hyn o bryd yn wahanol. Mae pwysau ar ofal brys ac mewn argyfwng yn y GIG yn debygol o aros yn uchel am beth amser o ganlyniad i ymdrin ag afiechyd parhaus sy'n gysylltiedig â COVID a chleifion na wnaethant geisio help yn gynharach yn y pandemig sydd bellach yn dod i sylw â symptomau mwy difrifol. Gall fod yn afrealistig diogelu capasiti gofal wedi'i gynllunio'n llwyr rhag pwysau gofal brys, ond os yw'r anghydbwysedd cyfredol yn parhau, bydd rhestrau aros hir ac arosiadau hir yng Nghymru am flynyddoedd lawer.


## **Mae cleifion sy'n ffit yn feddygol yn meddiannu gwelyau'r GIG**

1.14 Fel a nodwyd yn ein hadroddiad Darlun o Ofal Iechyd, fe wnaeth nifer gwelyau'r GIG yng Nghymru ostwng yn gyson yn y blynyddoedd cyn y pandemig o oddeutu 12,000 yn 2010-11 i oddeutu 10,300 yn 2020-21. Mae nifer o fyrddau iechyd yn ei chael yn anodd rhyddhau cleifion yn effeithiol i ryddhau gwelyau ar gyfer cleifion newydd. Dywedodd rhai byrddau iechyd wrthym y gallant fod â channoedd lawer o gleifion sy'n ffit yn feddygol yn meddiannu gwelyau mewn ysbytai ar unrhyw adeg benodol. Mae'r cleifion hyn yn nodweddiadol yn aros am becynnau gofal cymdeithasol, naill ai i'w cynorthwyo i fyw yn eu cartref, neu mewn cartref gofal tra bo eraill yn aros am fynediad at weithwyr iechyd proffesiynol eraill megis ffisiotherapyddion cyn y gallant adael yr ysbyty.

## Gallai gymryd blynyddoedd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaeth

1.15 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos y cynnydd neu'r gostyngiad o un mis i'r llall yn y rhestr aros rhwng mis Ebrill 2019 a mis Chwefror 2022 ac yn dangos sut y mae nifer y cleifion ar restrau aros wedi tyfu bob mis ers dechrau'r pandemig. Mae hefyd yn dangos, ers mis Gorffennaf 2021, bod cyfradd twf rhestrau aros yn lleihau ar y cyfan.


### Arddangosyn 4: Cymru gyfan – twf (oren) neu ostyngiad (llwyd) o un mis i'r llall yn niferoedd y bobl ar y rhestr aros



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

1.16 Mae'r arafiad yn nhwf y rhestr aros yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer y bobl a dynnwyd oddi ar y rhestr aros wedi bod yn cynyddu'n raddol. Mae **Arddangosyn 5** yn dangos, dros yr hydref ac ar ddechrau'r gaeaf yn 2021, bod y bwlch rhwng nifer y bobl a ychwanegwyd at y rhestr aros (ychwanegiadau) a nifer y rhai a dynnwyd oddi ar y rhestr (naill ai trwy gael triniaeth neu am nad oedd angen triniaeth arnynt mwyach) wedi lleihau. Bydd angen parhad yn y duedd hon lle mae'r niferoedd a dynnir oddi ar y rhestr yn fwy na'r ychwanegiadau ati i ddechrau brathu i mewn i'r ôl-groniad o ran rhestrau aros.

### Arddangosyn 5: amcangyfrif o'r niferoedd a ychwanegwyd at y rhestr aros ac a dynnwyd oddi arni o'i gymharu â 2019-20




Sylwer: Darperir rhagor o fanylion ynghylch sut y gwnaethom gyfrifo nifer y rhai a ychwanegwyd at y rhestr aros ac a dynnwyd oddi arni yn **Atodiad 1**.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

1.17 Rydym wedi defnyddio data Llywodraeth Cymru i gyfrifo pa mor hir y gallai ei gymryd i GIG Cymru i fynd â rhestrau aros yn ôl at yr un lefelau ag ym mis Mawrth 2020<sup>8</sup>. Fe ddatblygom ni dri senario enghreifftiol: rhesymol, pesimistaidd ac optimistaidd. Mae'r gwaith modelu (**Arddangosyn 6**) ar gyfer ein senario rhesymol yn awgrymu y gallai'r rhestr aros gyrraedd ei hanterth yn 2023 ond dychwelyd at y lefelau cyn y pandemig erbyn 2029. Yn ein senario optimistaidd mae'r dychweliad at lefelau cyn y pandemig yn symud ymlaen i 2027 ac yn ein senario pesimistaidd byddai'r rhestr aros yn aros uwchlaw'r lefelau cyn y pandemig tan 2032.

8 Mae **Atodiad 1** yn nodi sut y gwnaethom foddelu'r senarios.

**Arddangosyn 6: senarios enghreifftiol o'r niferoedd ar restrau aros**

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

1.18 Mae'r newidynnau allweddol yn ein gwaith modelu'n cynnwys ar ba gyfradd yr ychwanegir pobl at y rhestr aros dros amser ac i ba raddau y mae'r cleifion a allai fod 'ar goll' neu'r galw nas bodlonwyd yn dychwelyd. Nid yw ein gwaith modelu'n ystyried galw newydd neu fwy cymhleth posibl o ganlyniad i dueddiadau yn iechyd y boblogaeth neu effaith COVID-19. Mae hefyd yn gwneud tybiaethau gwahanol wrth ystyried ar ba gyfradd y mae'r GIG yn gallu tynnu pobl oddi ar y rhestr. Caiff y gallu i dynnu cleifion oddi ar y rhestr ei bennu i raddau helaeth gan gapasiti a bydd nifer o ffactorau'n dylanwadu arno, yn enwedig yn y tymor byr:

- mynychder COVID-19 yn y gymuned yn lleihau'n sylweddol, gyda gostyngiad o ganlyniad yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â COVID;
- llacio mesurau rheoli haint COVID-19 mewn ysbytai o bosibl
- capasiti'r gweithlu'n cynyddu; ac
- i ba raddau y mae cyllid ychwanegol y trefnir ei fod ar gael dros y tair blynedd nesaf yn gallu cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

- 1.19 Enghreifftiol yw'r model uchod ac mae'n cwmpasu'r rhestr aros gyfan. Cydnabyddir bod pob arbenigedd gofal wedi'i gynllunio'n wahanol ac y bydd cyfraddau'r galw a chapasiti'n amrywio ynddynt. Er enghraifft, gallai gymryd yn llawer hwy i arbenigeddau megis Offthalmoleg ac Orthopaedeg adfer nag arbenigeddau eraill am bod yr arbenigeddau hyn dan bwysau cyn y pandemig. Yn yr un modd, efallai y bydd arbenigeddau eraill yn gallu symud yn gyflymach.



**Beth y mae angen i GIG  
Cymru ei wneud i fynd  
i'r afael â'r heriau mewn  
gofal wedi'i gynllunio?**

---

- 1.20 O'n trafodaethau ni gyda chyrrff y GIG a Llywodraeth Cymru, mae'n amlwg bod mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn gofal wedi'i gynllunio'n flaenoriaeth allweddol. Mae buddsoddiad wedi cael ei nodi, mae cynlluniau'n cael eu datblygu ac mae tystiolaeth o gynnydd cynnar mewn rhai meysydd yn dechrau dod i'r amlwg.
- 1.21 Fodd bynnag, mae maint yr her yn enfawr a bydd yn golygu bod angen i'r GIG drawsnewid ar raddfa a chyflymder nas gwelwyd o'r blaen. Bydd angen arweinyddiaeth glinigol a rheolaethol ar draws y system gyfan i gyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol a gynhyrchwyd a honno wedi'i halinio â diben cyffredin.
- 1.22 Mae ffocws o'r newydd ar gael cymaint â phosibl o effeithlonrwydd o adnoddau presennol yn mynd i fod yn hanfodol. Ond ni fydd hyn ynddo'i hun yn ddigon, a bydd angen canfod capasiti ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad i ddechrau ac yna taro cydbwysedd rhwng y galw a chapasiti mewn ffordd na wnaed yn flaenorol.
- 1.23 Mewn cyd-destun lle mae llawer o gleifion yn gorfod aros am amser hir iawn am eu triniaeth, bydd angen i'r GIG sicrhau bod ganddo'r mecanweithiau blaenoriaethu ac adolygu angenrheidiol i adnabod y cleifion hynny y mae angen iddynt gael eu gweld ar fwy o frys i leihau niwed y gellir ei osgoi. Mae angen dull gwell hefyd o gyfathrebu gyda chleifion tra'u bod yn aros i'w helpu i reoli eu cyflwr a gwybod beth i'w wneud os bydd eu cyflwr yn gwaethygu.
- 1.24 Caiff y camau gweithredu allweddol hyn eu harchwilio ymhellach yn y graffeg ar y dudalen nesaf.



## Arddangosyn 7: camau gweithredu allweddol i GIG Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau mewn gofal wedi'i gynllunio

### Gweledigaeth genedlaethol glir a buddsoddiad ategol



Dylai cynllun Llywodraeth Cymru i drawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau'r ôl-groniad gael ei ategu gan fframweithiau â nodau a cherrig milltir uchelgeisiol i adfer a thrawsnewid gofal argyfwng. Dylai'r cynllun gael ei oleuo gan asesiad realistig o'r capasiti sy'n debygol o fod ar gael i gyrraedd y rhain. Rhaid iddo gael ei ategu gan strategaeth fuddsoddi sy'n cynnwys dull mwy strategol a thymor hwy lle mae cyllid cyfalaf yn y cwestiwn i hwyluso'r newidiadau gofynnol i ystâd y GIG y mae eu hangen i adfer gofal wedi'i gynllunio.

### Arweinyddiaeth system gref ac wedi'i halinio



Mae angen system sy'n trosi gweledigaeth genedlaethol yn weithredu lleol, gan gydnabod mai cyfyngedig oedd llwyddiant trefniadau blaenorol y bwrdd rhaglen genedlaethol. Mae angen i arweinyddiaeth glinigol a rheolaethol o fewn sefydliadau gael ei halinio â diben cyffredin ac mae angen i wersi a ddysgwyd o'r modd yr ymatebodd y GIG a'i bartneriaid i COVID gael eu trosglwyddo i helpu i fynd i'r afael â'r heriau tymor hwy ar gyfer gofal wedi'i gynllunio.

### Ffocws o'r newydd ar effeithlonrwydd y system



Dylai defnyddio'r adnoddau presennol yn y ffordd fwyaf effeithiol fod yn flaenoriaeth allweddol. Bydd hyn yn golygu gwneud pethau'n wahanol trwy wella prosesau a systemau presennol. Bydd hefyd yn golygu gwneud pethau gwahanol ac ailfeddwl sut, ble a chan bwy y mae cleifion yn cael y cyngor a'r driniaeth y mae eu hangen arnynt. Bydd angen ystyried cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau ond dylid cynnal ffocws ar egwyddorion gofal iechyd darbodus a mesurau effeithlonrwydd allweddol. Mae angen sicrhau cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o dechnolegau digidol newydd ac archwilio ffyrdd o gyflymu profion diagnostig.

### Meithrin a diogelu capasiti gofal wedi'i gynllunio



Nid oes amheuaeth y bydd angen capasiti ychwanegol yn y tymor byr a bydd angen cynlluniau eglur i adnabod o ble y daw hyn. Dylid ystyried i ba raddau y gellir diogelu capasiti gofal wedi'i gynllunio rhag pwysai gofal heb ei drefnu fel rhan o gynllunio cenedlaethol a lleol hefyd. Dylai fframweithiau Llywodraeth Cymru gynorthwyo byrddau iechyd i flaenoriaethu gofal heb ei drefnu ar adeg pan fo pwysau mawr ond rhaid iddynt hefyd eu helpu i daro cydbwysedd ag anghenion cleifion sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio. Mae rhai byrddau iechyd wedi gwneud cynnydd o ran creu cyfleusterau wedi'u neilltuo i waith dewisol sydd wedi arwain at beth llwyddiant. Er nad yw hi wastad yn ymarferol neu'n gyfystyr â'r defnydd gorau o adnoddau o bosibl pan fo cyfleusterau'n cael eu gwahanu'n ffisegol, mae angen i'r system feddwl yn wahanol am sut y mae'n diogelu gofal wedi'i gynllunio. Bydd angen dull mwy cyfunol o gynllunio capasiti ar draws ffiniau byrddau iechyd ochr yn ochr ag adolygiad beirniadol o nifer y gwelyau wedi'u staffio y mae eu hangen yn y system. Bydd hyn hefyd yn cynnwys angen am gynllunio'r gweithlu'n effeithiol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

### Rheoli risgiau clinigol a niweidiau y gellir eu hosgoi



Wrth reoli'r system gofal wedi'i gynllunio bydd ang appendices en newid i un sy'n seiliedig ar angen clinigol cleifion yn hytrach nag am faint o amser y maent wedi bod yn aros. Dylai monitro perfformiad fod yn seiliedig ar hydroedd argymelledig arosiadau ar gyfer gwahanol gategoriâu o flaenoriaeth glinigol gan gynnal ffocws ar leihau i'r eithaf y dirywiad yng nghyflyrau cleifion tra'u bod yn aros. Mae angen ffocws penodol ar fonitro cyflwr cleifion sy'n wynebu arosiadau hir am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol. Mae angen ystyried rôl bosibl meddygon teulu yn y broses o flaenoriaethu a rheoli cleifion sy'n aros am driniaeth hefyd.

### Cyfathrebu gwell gyda chleifion



Gan adeiladu ar fecanweithiau presennol, bydd angen i gyrff y GIG sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion ynghylch yr amser tebygol y bydd angen iddynt aros, sut i reoli eu cyflwr tra'u bod yn aros a beth i'w wneud os bydd eu cyflwr yn gwaethygu neu'n gwella. O ystyried niferoedd y cleifion sy'n aros, bydd angen i gyrff y GIG sicrhau eu bod yn buddsoddi digon o adnoddau mewn gwybodaeth i gleifion a chyfathrebu gyda chleifion.



# Atodiad



## 1 Ein dull

# 1 Ein dull

Daw'r sail dystiolaeth ar gyfer ein gwaith o adolygiadau o ddogfennau a metrigau ar ofal wedi'i gynllunio, a chyfweliadau gyda swyddogion byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr cleifion. Mae ein dadansoddiad o ddata'n seiliedig ar ddata Llywodraeth Cymru ar StatsCymru.

Mae ein gwaith modelu senarios yn **Arddangosyn 6** yn tynnu ar beth gwaith modelu cychwynnol a wnaed gan Uned Gyflawni'r GIG. Y cyfrifiad a ddefnyddiwyd gennym, yn dilyn gwaith yr Uned Gyflawni, oedd:

- caiff nifer y rhai a dynnwyd oddi ar y rhestr ei gyfrifo trwy gymryd nifer y cleifion sydd wedi bod yn aros am dros 4 wythnos (h.y. nid cleifion newydd y mis hwnnw ydynt) a didynnu'r rhif yma o gyfanswm y rhestr aros yn y mis blaenorol. Mae hyn yn rhoi dirprwy ar gyfer niferoedd y cleifion a dynnwyd oddi ar y rhestr o un mis i'r llall.
- ychwanegiadau yw'r bobl yr adroddwyd arnynt yn y ffigyrau misol sydd wedi bod yn aros am lai na 4 wythnos – sy'n dynodi eu bod wedi cael eu hychwanegu at y rhestr aros yn y mis diwethaf. Er bod ychwanegiadau misol yn rhoi mesur rhesymol o ychwanegiadau, efallai y bydd rhai o'r bobl a gynhwysir wedi bod yn aros yn barod ond wedi cael 'ailosod eu cloc' am ryw reswm, er enghraifft peidio â mynychu apwyntiadau lluosog. Mae hefyd yn bosibl efallai na fydd rhai pobl yn cael eu cyfrif os cawsant eu hychwanegu at y rhestr a'u tynnu oddi arno cyn bod y data'n cael ei gofnodi ar ddiwedd pob mis.

Mae ein gwaith modelu'n darparu senarios ar gyfer yr amser y gallai ei gymryd i GIG Cymru ddod â rhestrau aros yn ôl i lefelau mis Mawrth 2020 gan ddefnyddio tri senario: rhesymol, pesimistaidd ac optimistaidd (**Arddangosyn 6**). Fe wnaethom roi cyfrif am y galw a allai fod wedi pentyrru (gweler **paragraff 1.6**) trwy wasgaru gwahanol gyfrannau o'r 550,000 o atgyfeiriadau a allai fod ar goll yn gyfartal dros 2022-23. Roedd y cyfrannau hynny'n amrywio gan ddibynnu ar senario optimistaidd, rhesymol neu besimistaidd. Mae **Arddangosyn 8** yn nodi ein tybiaethau modelu.

**Arddangosyn 8: tybiaethau modelu rhestrau aros**

Tybiaethau	Rhesymol	Pesimistaidd	Optimistaidd
Ychwanegiadau 2022-2025 o'i gymharu â 2019-20	100%	100%	100%
Cynnydd blynyddol mewn ychwanegiadau o 2025 ymlaen	0.5%	0.5%	0%
Galw atgyfeirio 'coll' nas bodlonwyd sy'n dod i sylw	40%	50%	30%
Gweithgarwch/rhai a dynnwyd oddi ar y rhestr o'i gymharu â lefelau 2019-20 yn ystod:			
2022-23	101%	95%	101%
2023-24	103%	95%	103%
2024-25	105%	100%	105%
2025 ymlaen	110%	110%	115%

Mae ein dadansoddiad yn amlygu maint yr her bosibl a faint o amser y gallai ei gymryd i glirio'r ôl-groniad o bobl sy'n aros am driniaeth. Mae'r senarios yr ydym wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad yn seiliedig ar dybiaethau a allai newid dros y blynyddoedd sydd i ddod.



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau yn  
y Gymraeg a'r Saesneg.

Ebost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)